*CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**COFNODION PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL**
**nos Fawrth Ebrill 25ain 2023**

**Presennol :-** Cynghorwyr :- Aled Griffith, Gwilym Jones, Llywelyn Rhys ( Cadeirydd), Dr Melfyn Edwards, Michael Roberts
Marian Roberts ( Clerc)

**1. Ymddiheuriadau**
**Cynghorwyr:-** Connor Westwood, Llinos Murphy

**2. Archwilio'r cyfrifon.** (*Mantolen a dadansoddiad o'r cyfrifon hyd at 31.3.23 sydd yn barod ar gyfer yr archwilydd mewnol ynghlwm)*
Cytunwyd fod sefyllfa ariannol Y Cyngor Tref yn un iach o ystyried bod Incwm Meysydd Parcio ac ad-daliad T.A.W. i ddod i law yn fuan a derbyniwyd y fantolen yn gywir.

**3. Ceisiadau Cynllunio ( wedi ebostio 12.4.23)**

**(a) Rhif Cais C23/0299/44/HY**
Lleoliad : Y Ship Inn, 14 Stryd Lombard, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AP
Bwriad : Amnewid arwyddion presennol gyda rhai newydd a goleuadau cysylltiedig
**Penderfynwyd :-** Dim gwrthwynebiad

**(b) Rhif Cais / Application No.: C22/1009/44/CR**
Lleoliad : 10 Pen Y Cei, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AT
Bwriad: Dymchwel estyniad unllawr to fflat cefn a chodi estyniad newydd deulawr to pits, gyda addasiadau mewnol
**Penderfynwyd :-** Dim gwrthwynebiad

**4. Dewis goleuadau Nadolig newydd**

Trafodwyd y dewis o oleuadau wrth iddynt gael eu dangos ar y sgrin.
**Penderfynwyd :-** i fynd ymlaen i brynu 7 golau newydd 'Falling Star' am £423 yr un.

**5. Biliau i'w talu - gwariant disgwyliedig:**
Dim biliau i'w talu.

Gadawodd y Clerc y cyfarfod.
**6. Cyflog y Clerc.** (*Mater statudol sydd yn gorfod cael ei drafod yn flynyddol)*
Cyflog presennol :- Gris 25 - £16.64 yr awr.

Dychwelodd y Clerc i'r cyfarfod i gofnodi bod yr Is-Bwyllgor Cyllid wedi cytuno'n unfrydol i godi cyflog y Clerc o gris 25 i gris 27 ar £17.58 yr awr yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.00.

Marian Roberts
26.4.23